



## Llyfryn Canllaw - Rhestr Termiau

Term	Esboniad
Apelydd	Y person sydd wedi gwneud apêl i'r tribiwnlys.
Cyfaill Achos	Person sy'n addas i arfer hawliau'r plentyn i wneud apêl neu hawliad.
Datganiad Achos	Datganiad o achos parti sy'n cael ei gyflwyno mewn perthynas ag apêl neu hawliad
Cyfnod Datganiad Achos	Y cyfnod o amser sydd gan bartïon i gyflwyno eu datganiadau achos.
Cadeirydd	Yr aelod cyfreithiol gymwys sy'n arwain gwrandawriad mewn tribiwnlys.
Plentyn	Y person sy'n destun yr apêl neu'r hawliad.
Hawliad	Hawliad am achos honedig o wahaniaethu ar sail anabledd.
Hawlydd	Y person sydd wedi gwneud hawliad am achos honedig o wahaniaethu ar sail anabledd.
Clerc	Y person sy'n delio â'r agweddau gweinyddol ar wrandawriad mewn tribiwnlys.
Gwrandawriad	Cyfarfod gerbron Llywydd, Cadeirydd neu banel y tribiwnlys at ddibenion galluogi'r Llywydd, y Cadeirydd neu banel y tribiwnlys i ddod i benderfyniad ynghylch apêl neu hawliad neu ynghylch unrhyw gwestiwn neu fater y mae gan y partiön hawl i fod yn bresennol ynddynt a chael eu clywed.
Awdurdod Lleol	Y sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros addysg plant.
Ysgol a gynhelir	Ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig sefydledig neu gymunedol, neu ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod lleol.
Sylwedydd	Person sy'n gallu bod yn bresennol mewn gwrandawriad gyda parti, ond sydd ddim yn gallu cymryd rhan yn y trafodaethau na gwneud nodiadau.
Sylwadau llafar	Y dystiolaeth sy'n cael ei rhoi ar lafar mewn gwrandawriad.
Rhiant	Person sy'n cael ei ddiffinio fel rhiant plentyn o dan y Ddeddf Addysg.
Parti	Y rhieni, yr awdurdod lleol neu'r corff cyfrifol sy'n rhan o'r broses apelio neu hawlio.

<b>Term</b>	<b>Esboniad</b>
Cyfarwyddyd Ymarfer	Cyfarwyddyd sy'n cael ei gyhoeddi gan y Llywydd er mwyn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddehongli Rheoliadau'r Tribiwnlys.
Cynrychiolydd	Person sydd wedi'i enwi i weithredu ar ran parti, p'un ai a yw yn gyfreithiol gymwys ai peidio.
Corff Cyfrifol	Y corff sy'n gyfrifol am agweddau penodol ar ysgol.
Ysgrifennydd y Tribiwnlys	Pennaeth staff gweinyddol y Tribiwnlys.
Yr Ysgrifenyddiaeth	Y staff gweinyddol sy'n delio â gohebiaeth a'r gwaith gweinyddol sydd ynghlwm ag apeliadau a hawliadau.
Datganiad	Y datganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n berthnasol i'r plentyn.
Y Tribiwnlys	Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Panel y Tribiwnlys	Panel o'r Tribiwnlys sy'n gallu penderfynu ar apêl neu hawliad neu unrhyw gwestiwn neu fater sy'n ymwneud ag apêl neu hawliad.
Yr Uwch Dribiwnlys	Y sefydliad rydych chi'n gallu gwneud apêl iddo os ydych chi'n meddwl fod penderfyniad y tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.
Tyst	Person sydd wedi'i enwi i fod yn bresennol mewn gwrandawriad tribiwnlys ar ran parti i roi tystiolaeth i banel y tribiwnlys.
Gwŷs tystio	Sef dogfen a gaiff ei chyhoeddi gan y Llywydd neu gan banel y tribiwnlys sy'n ei gwneud yn ofynnol i dyst fod yn bresennol mewn gwrandawriad o apêl neu hawliad er mwyn rhoi tystiolaeth neu ddangos dogfennau sy'n gysylltiedig ag apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys.